Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Tregarth

**Canolfan Gymuned Tregarth**
**Tregarth**
**Bangor**
**LL57 4AW**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Tregarth

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Tregarth |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person cofrestredig | Peter Salami |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Lisa Williams |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 13 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Gwener 08:30yb – 13:00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 23/09/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/07/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/07/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Amh** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod systemau yn eu lle er mwyn gwerthuso damweiniau a digwyddiadau

A2 Datblygu ymhellach y defnydd o arsylwadau i hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant

A3 Cryfhau prosesau gwerthuso'r gweithdrefnau arwain

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn dangos hapusrwydd a brwdfrydedd ac yn rhyngweithio'n dda gydag ymarferwyr a'u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn medru mynegi eu teimladau'n glir. Er enghraifft, wrth hunan gofrestri, maent yn medru ateb y cwestiwn 'Sut wyt ti'n teimlo heddiw?' yn hyderus. Mae bron bob plentyn yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â gyda phwy a ble i chwarae. Er enghraifft, yn ystod chwarae rydd, maent yn symud rhwng gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn hyderus. O ganlyniad, maent yn dilyn eu hoffterau personol yn effeithiol fel chwarae tu allan ar y beiciau a choginio yn y gegin fwd. Maent hefyd yn mwynhau chwarae tu fewn gyda cheir rheolaeth bell a chreu patrymau lliw yn yr ardal does.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn fodlon ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae bron bob plentyn yn cyrraedd yn hapus ac yn ymdopi heb drafferth wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae'r rhan fwyaf yn tynnu cot a bag a dewis enw i hunan gofrestri yn syth wrth iddynt gyrraedd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall bod ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau neu bryderon. Maent yn ffurfio perthnasau cadarnhaol â'u gweithwyr allweddol, sy'n cael effaith da ar eu lles.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rheoli eu hymddygiad yn dda. Mae llawer yn rhannu adnoddau’n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd tro yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn rhannu adnoddau yn yr ardal darnau rhydd. Mae bron bob plentyn yn ymuno gyda sesiwn ganu. Mae’r rhan fwyaf yn dewis offeryn i chwarae wrth ganu.

Maent yn hapus i chwarae gyda'i gilydd ochr yn ochr. Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus i chwarae gyda’i gilydd a gyda’r ymarferwyr o fewn y lleoliad. Mae llawer o blant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau yn fawr iawn ac yn gwneud hynny’n hyderus wrth ddilyn eu diddordebau. Maent yn hoffi chwarae yn yr ardal chwarae rôl tu allan a pheintio yn yr ardal tu fewn. Maent yn defnyddio’u dychymyg yn dda wrth chwarae ac yn dysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain. Mae llawer o blant yn medru dyfalbarhau ar weithgareddau am amser priodol i’w cam datblygu.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod o fedrau annibynnol yn dda. Er enghraifft, mae llawer o blant yn medru defnyddio offer i ddewis bwyd eu hunain ac maent yn gallu arllwys diodydd yn hyderus, yn ystod amser byrbryd. Mae llawer o blant yn datblygu eu sgiliau mudol mawr trwy ddefnyddio offer dringo, reidio beic a rhedeg o gwmpas yr ardal allanol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae bob ymarferwr yn dilyn systemau a gweithdrefnau cadarn er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a’u gallu. Mae’r ymarferwyr yn arwain sgyrsiau gyda’r plant yn ddeallus, yn ôl gallu unigol bob plentyn. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol gan bob un o’r ymarferwyr, sy’n sicrhau dealltwriaeth o'r prosesau i'w ddilyn. Mae’r gweithdrefnau ac arferion hylendid yn effeithiol ac mae’r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol yn fwriadus, yn annibynnol.

Mae bob ymarferwr yn cadw cofnodion addas o ddamweiniau a digwyddiadau. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwerthuso unrhyw ddamweiniau na digwyddiadau er mwyn nodi unrhyw batrymau ynddynt. Mae hyfforddiant yr holl ymarferwyr ynglŷn ag amddiffyn plant yn gyfredol ac maent yn gadarn wrth drafod unrhyw broblemau neu bryderon sy’n codi. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn dda. Maent yn siarad â phlant yn dda, ar ei lefel nhw ac mewn iaith maent yn deall. Mae’r ymarferwyr yn modelu ymddygiad yn dda. Mae ganddynt wybodaeth dda am anghenion ag hoffterau'r plant. Maent yn gweithredu ar wybodaeth gan rieni wrth gofrestru ac maent yn wybodus am anghenion unigolion.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu eu dealltwriaeth o'u Cymreictod ac o'r byd ehangach. Mae ganddynt amrywiaeth o deganau, adnoddau a llyfrau sydd yn ymestyn ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y plant. O ganlyniad, maent yn dysgu sut i drin pobl o bob diwylliant gyda pharch. Er enghraifft, maent yn dysgu am ddiwylliant yn Ffrainc, yn ogystal â Dydd Gŵyl Dewi, y Pasg a'r Nadolig. Mae'r Cynnig Rhagweithiol ar waith yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg trwy'r amser gyda'r plant. Mae rhai plant yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac mae nifer ohonynt yn cyfathrebu yn hyderus ac yn naturiol. Mae rhai plant yn siarad Saesneg gyda'r ymarferwyr ond maent yn ail-adrodd y plant yn y Gymraeg ac yna ateb eu cwestiwn yn y Gymraeg.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant, ac maent yn cydweithio'n effeithiol i greu ethos positif o ran y dysgu. Maent yn modeli weithgareddau ac yn cefnogi chwarae rhydd ac arbrofol y plant yn ddeallus, gan bwyso a mesur pryd a sut i ymyrryd er mwyn cyfoethogi'r dysgu. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn herio'r plant i fod yn greadigol gydag adnoddau celf. Maent yn eu harsylwi yn dewis, torri, trefnu a gludo'r adnoddau i greu lluniau, ac yna'n eu cwestiynu'n gelfydd am yr hyn maent wedi eu creu. Mae pob un o'r ymarferwyr yn cynnig profiadau gwerthfawr sy'n ennyn diddordebau llawer o'r plant yn fwriadus.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas waith da gyda'r holl blant ac maent yn darparu cyfleoedd chwarae buddiol i ddatblygu medrau cyfathrebu a chymdeithasol y plant. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn hyderus i gyfathrebu ar lafar ag eraill. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant drwy brofiadau bywyd go iawn. Er enghraifft, maent yn eu hannog i chwarae rôl yn y gegin drwy greu brecwast a gweini ei gilydd. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cynnar TGCh y plant yn datblygu'n effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn darparu adnoddau TGCh addas yn yr ardaloedd i blant archwilio drwy chwarae yn llwyddiannus. Er enghraifft mae plant yn cydweithio'n llwyddiannus i reoli ceir llywio o bell a chreu llwybrau amrywiol iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol, fel arbrofi gyda sialc a phaent, a defnyddio offerynnau taro wrth berfformio caneuon. Maent yn sicrhau cyfloed i blant datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn eu hannog i ddringo, cydbwyso, i yrru beiciau, palu a thywallt dŵr mewn whilber.

Mae'r ymarferwyr yn dechrau arbrofi a chynllunio ar gyfer hyrwyddo egwyddorion a chynnwys y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn datblygu cyfleoedd i fagu hyder ac annibyniaeth y plant yn dda gan annog iddynt fentro a chymryd risg wrth chwarae yn ddigymell. Mae'r ymarferwyr yn dechrau cofnodi arsylwadau o ddatblygiad a chyflawniadau plant yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro yn defnyddio deilliannau asesiadau i gynllunio gweithgareddau at y dyfodol sy'n bodloni anghenion a diddordebau bob plentyn yn llawn.

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Maent yn trefnu gweithgareddau diddorol i’r plant, sy’n eu hannog i fod yn chwilfrydig ac i werthfawrogi rhyfeddodau’r byd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn plannu ac yn arsylwi ar flodau yn tyfu, ac yn mynd ar deithiau natur yn yr ardal leol. Maent yn dathlu amrywiaeth yn dda trwy ddarparu cyfleoedd i’r plant chwarae ag ystod o adnoddau priodol, ac wrth astudio gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Maent hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol trwy ddarparu gweithgareddau priodol iddynt fel creu cardiau i ddathlu dydd Santes Dwynwen a baneri ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol i’r plant y tu mewn a’r tu allan. Mae’r ymarferwyr yn trefnu’r amgylchedd mewnol yn bwrpasol i sicrhau bod yr ardaloedd yn ddiddorol, yn ysgogol ac sy’n darparu profiadau da i’r plant. Mae’r ystafell wedi ei rhannu i nifer o ardaloedd deniadol sy’n dal dychymyg a diddordeb y plant. O ganlyniad, mae ardaloedd ar gael i blant i ddatblygu’n greadigol, i orffwys ac i gymdeithasu gyda'i gilydd. Mae’r amgylchedd chwarae yn gyfforddus a chysurus gyda digon o le i blant symud o’u cwmpas yn rhwydd. Mae gan y lleoliad nifer o arddangosfeydd deniadol, sy’n dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn hyrwyddo’r ymdeimlad o hunan-barch a hunanwerth ymysg y plant yn fwriadus. Er enghraifft, mae un arddangosfa yn dathlu lluniau mae’r plant wedi tynnu o’u hunain gyda’r camera digidol. Mae’r ardal allanol yn cynnig cyfleoedd i blant dreulio amser yn defnyddio ac arbrofi ag amrywiaeth o adnoddau mewn amgylchedd sy’n bwrpasol, ysgogol ac sy’n newydd wedi ei datblygu.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn daclus, yn lan ac yn ddeniadol. Mae’r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel sy’n addas i’r plant er mwyn hybu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, mae trefniadau glanhau teganau, adnoddau a’r cyfarpar yn ddyddiol ac yn wythnosol yn ei le. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel drwy weithredu ar ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr. Mae asesiadau risg yn eu lle gan gynnwys rhai sy’n cael ei wneud yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod popeth yn barod cyn i’r plant gyrraedd. Mae niferoedd y staff yn rhagori a disgwyliadau'r rheoliadau ac o ganlyniad goruchwylir y plant yn effeithiol iawn. Ni all ymwelwyr fynd at unrhyw ran o’r lleoliad oni bai bod ymarferwr yn rhoi mynediad iddynt.

Mae pob aelod o staff yn sicrhau bod y cyfleusterau bwyta yn addas i oedran y plant. Maent yn sicrhau bod y tai bach a chyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid yn briodol. Mae’r plant yn cael cyfle i fynd i’r tŷ bach a defnyddio’r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae’r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu cynnal a’u cadw’n effeithlon.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli weledigaeth glir. Mae hyn yn seiliedig ar sicrhau bod ymarferwyr yn darparu gofal o ansawdd da yn y Gymraeg i blant gan

ganolbwyntio ar ddysgu trwy chwarae a sbarduno chwilfrydedd ac annibyniaeth y plentyn unigol. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn cydweithio i'w gwireddu mewn amgylchedd hapus a diogel. Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac yn rhoi gwybodaeth ddigonol i rieni / gofalwyr wneud y dewis cywir am ofal eu plant.

Mae arweinwyr yn parchu a gwerthfawrogi gwaith yr holl ymarferwyr. Maent yn ystyried eu barn, yn eu cefnogi'n effeithiol ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn eu galluogi i wneud eu gorau dros y plant a chydymffurfio â'r weledigaeth. Mae gan ymarferwyr gymwysterau a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc ac mae eu rolau a chyfrifoldebau yn glir. Mae cymarebau da o oedolion i blant ac mae cynlluniau addas wrth gefn rhag ofn y bydd yr arweinydd neu un o'r ymarferwyr yn absennol.

Mae gan y pwyllgor rheoli nifer o aelodau newydd. Mae'r pwyllgor yn gefnogol ac yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau'r arweinydd a'r swyddogion o'r asiantaethau allanol, gan gynnwys yr athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae gan y pwyllgor rheoli gweithdrefnau addas i werthuso gwaith y lleoliad ac maent yn eu gweithredu'n briodol i adnabod yn gywir y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, maent wedi datblygu'r ardal allanol yn fuddiol er mwyn datblygu medrau plant yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r arferion monitro, ar gyfer gwerthuso'r gweithdrefnau arwain yn gyson a sefydlog.

Mae'r arweinydd yn defnyddio'r gyllideb a'r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn blaenoriaethau yn ddoeth. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn elwa o'r hyfforddiant priodol. Er enghraifft, trwy gyllido adnoddau defnyddiol, fel canopi a'r gegin fwd, yn hyrwyddo profiadau cyffrous a gwerthfawr i'r plant.

Mae'r arweinydd yn cydweithio'n llwyddiannus gyda amryw o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, yr ysgolion cynradd lleol, swyddogion yr awdurdod lleol a'u sefydliad cefnogol. Mae'r arweinydd wedi datblygu perthynas cadarn iawn gyda rhieni a gofalwyr. Wrth i blant ddechrau yn y lleoliad, mae'r ymarferwyr yn cysylltu â rhieni a gofalwyr er mwyn canfod anghenion a diddordebau plant. O ganlyniad maent yn gallu darparu ar gyfer eu diddordebau'n llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn rhannu gwybodaeth bwysig yn gyson gyda rhieni a gofalwyr am eu polisïau a gweithdrefnau. Gwnânt hyn trwy sgyrsiau dyddiol anffurfiol yn ôl yr angen, a grŵp cyfryngau cymdeithasol caeedig.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| | Regulation 28 of The Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010 ("the 2010 Regulations"): Suitability of workers: the registered person was unable to evidence that all the required information was collated in order to satisfy themselves all staff working with children are suitable to do so | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 05 Medi 2023